17

Ar gael mewn diwygiau eraill

Coed A Datblygu

1. Cyflwyniad

Diben y Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol hwn yw rhoi eglurhad manylach i Bolisi EC4 o Gynllun Datblygu Unedol mabwysiedig Wrecsam, ynglŷn â diogelu coed a phwysleisio'r fantais sydd i goed o ran bod yn rhan annatod o ddyluniad datblygiad.

Mae Polisi EC4 yn datgan y dylai cynigion ar gyfer Datblygu ddarparu ar gyfer cadw a rheoli gwrychoedd, coed, perllannau, coetir, bywyd gwyllt a nodweddion naturiol eraill tirwedd a dŵr, a chynnwys plannu o'r newydd er mwyn cyfoethogi cymeriad tirwedd a threflun. Ni fydd caniatâd i ddatblygu sy'n golygu colli neu wneud niwed sylweddol i goed gwerthfawr, gwrychoedd pwysig neu safleoedd coetir hynafol.

Bydd y nodyn cyfarwyddyd hwn yn ystyriaeth o bwys wrth benderfynu ynglŷn â cheisiadau cynllunio. Dylai coedyddiwr cymwysedig a phrofiadol ofalu am ofynion y cyfarwyddyd hwn.

Defnyddir y term "Coeden" trwy'r ddogfen hon. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyfarwyddyd yn berthnasol i wrychoedd a llwyni mawr sylweddol.

2. Pwysigrwydd Coed

Mae coed a gwrychoedd yn rhan bwysig o'n hamgylchedd ac wrth gyflawni datblygiad cynaliadwy, mae cadw a phlannu coed a gwrychoedd newydd yn hanfodol bwysig.

Mae coed yn cyfrannu'n sylweddol i amwynder y dirwedd a golwg strydoedd, yn ychwanegu aeddfedrwydd at ddatblygiadau newydd, yn gwneud lleoedd yn fwy deniadol ac yn helpu i leddfu'r amgylchedd adeiledig trwy wella golygfeydd hyfryd, trwy dorri llinellau gwelediad a thrwy sgrinio adeiladau anneniadol a golygfeydd annymunol. Maent yn cyfrannu at ansawdd bywyd pobl a'u hymdeimlad o les ac yn dal carbon, yn cysgodi yn erbyn glaw a'i amsugno, sy'n lleihau'r perygl o lifogydd, maent yn amsugno llygryddion sy'n gymorth o ran lleihau achosion clefydau anadlol, maent yn hidlo sŵn, rhoi lloches a chysgod a rhoi cynefin i fywyd gwyllt.

3. Canllawiau Cynllunio

Mae'r egwyddorion canlynol yn berthnasol:

3.1 Cyffredinol

A) Ni fydd caniatâd fel arfer i ddatblygu a fyddai'n golygu niweidio ac/neu dorri coed a gwrychoedd o bwys yn amhriodol (sef Coed Categori A a B. BS 5837). Defnyddir amodau cynllunio a Gorchmynion Cadw Coed i ddiogelu coed mewn achosion priodol.

B) Mae'n rhaid i ddatblygu arfaethedig ger coed, coetiroedd neu wrychoedd sy'n bresennol fod yn unol â'r egwyddorion dylunio a diogelu sydd wedi eu nodi yn y Nodyn Cyfarwyddyd Cynllunio Lleol hwn a Safon Brydeinig 5837: 2012 "coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu" - Argymhellion (neu unrhyw ddiwygiadau sy'n dilyn). Mae'r Safon Brydeinig yn cynnig siart llif sy'n rhoi manylion y camau y mae angen eu dilyn ym mhob rhan o'r broses o ddatblygu. Mae'r siart i'w gweld yn Atodiad 1 i'r Nodyn Cyfarwyddyd hwn.

C) Bydd math a maint yr wybodaeth goedyddiaethol sydd i'w chyflwyno gyda'ch cais (✔) a lle gallai gwybodaeth ychwanegol fod yn ofynnol (✱) yn dibynnu ar raddfa a math y datblygiad arfaethedig.

i) Ar gyfer **ceisiadau gan ddeiliaid tai** (e.e. pob gwaith ar annedd unigol, ac eithrio adeiladu tŷ) dylai pob coeden (bonion ac estyniad cangau) a phob gwrych ar safle neu'n ddigon agos i effeithio fod wedi eu plotio'n fanwl gywir ar gynllun bloc. Mae'n rhaid cynnwys manylion ynglŷn â pha goed sydd i'w cadw, eu tynnu allan a'u tocio.

ii) Ar gyfer **ceisiadau ar raddfa fach** (e.e. pedair annedd neu lai, arwynebedd llawr llai na1000 m2, neu geisiadau amlinellol o lai na 0.5 Ha) lle mae coed ar y safle datblygu arfaethedig neu'n ddigon agos i effeithio, bydd angen arolwg tir, arolwg coed BS 5837 a Chynllun Diogelu Coed. Mae'n rhaid cynnwys manylion ynglŷn â pha goed sydd i'w cadw, eu tynnu allan a'u tocio

iii) Ar gyfer **ceisiadau ar raddfa fawr** (e.e. pum annedd neu fwy, arwynebedd llawr mwy na 1000 m2, neu geisiadau amlinellol mwy na 0.5 Ha a chynigion am weithfeydd mwynau a datblygu gwastraff) lle mae coed ar y safle datblygu arfaethedig neu'n ddigon agos i effeithio, dylid cyflwyno arolwg tir, arolwg coed BS 5837, Cynllun Diogelu Coed, Asesiad o Oblygiadau Coedyddiaethol a Datganiad o Ddull Coedyddiaethol gyda'ch cais.

iv) Lle mae coed sylweddol (Coed Categori A a B BS 5837) yn bresennol ar neu ger safleoedd lle mae cais ar raddfa fach neu gan ddeiliad tŷ a gallai'r datblygiad arfaethedig effeithio ar y rhain, efallai y bydd angen gwybodaeth ychwanegol, fel arolwg coed BS5837 ac Asesiad o Oblygiadau Coedyddiaethol.

v) Bydd ymgynghorydd coedyddiaeth yn gallu rhoi rhagor o wybodaeth i chi am y gofynion uchod.

	Ceisiadau Deiliaid Tai (3.1.C.i)	Ceisiadau Graddfa Fach (3.1.C.ii)	Ceisiadau Graddfa Fawr (3.1.C.iii)
Coed a Gwrychoedd Wedi eu Plotio ar y Cynllun Bloc	✔	✱	✱
Arolwg Tir	✱	✔	✔
Arolwg Coed BS 5837	✱	✔	✔
Asesiad o Oblygiadau Coedyddiaethol (AOC)	✱	✱	✔
Cynllun Diogelu Coed (CDC)	✱	✔	✔
Datganiad o Ddull Coedyddiaethol (DDC)	✱	✱	✔

Tabl 1: Gwybodaeth Goedyddiaethol sydd ei Hangen gyda Graddau o Ddatblygiad

3.2 Dyluniad

A) Mae plannu coed newydd, yn cynnwys dewis y rhywogaethau, lleoliadau plannu ac anghenion cynnal a chadw yn y dyfodol a chyfuno hyn gyda choed a gwrychoedd o ansawdd da sydd yno eisoes yn rhan anatod o'r broses o ddylunio. Mae'n rhaid i ddatblygiad fod wedi ei gynllunio o amgylch coed coed a gwrychoedd sylweddol lle bo hynny'n briodol, er mwyn i fwy o goed fod yn bresennol gyda phlannu o'r newydd, gan gyfoethogi'r amwynder lleol trwy hynny. Er enghraifft, nid yw'n hawdd darparu o'r newydd yn lle coed a gwrychoedd o gryn oedran, amwynder gweledol a gwerth ecolegol neu hanesyddol a dylid eu cadw a'u diogelu. Lle bynnag y collir coed a gwrychoedd o ganlyniad i ddatblygu, bydd angen fel arfer plannu o'r newydd o leiaf yr un nifer neu gymaint o ran estyniad a gorchudd y cangau â'r rhai a gollwyd er mwyn lliniaru'r golled.

B) Os oes digon o le, bydd angen defnyddio coed gydag estyniad cangau mawr er mwyn cynnig strwythur i'r datblygiad a'r dirwedd a'r strydlun o amgylch.

C) Mae'n rhaid i ddyluniad datblygiad sicrhau nad yw coed sydd wedi eu cadw a'u plannu yn peri niwsans neu anghyfleustra afresymol. Ni fydd caniatâd fel arfer i gynigion a fyddai'n golygu bod coed yn rhy gysgodol neu'n ormodol neu lethol yr olwg, ac/neu'n tarfu'n amhriodol ar fannau agored amwynder preifat neu dros eiddo preswyl.

D) Dylai gwasanaethau cyfleustod newydd fod yn ddigon pell oddi wrth goed presennol ac a fwriedir i beidio â pheri niwed i'r coed wrth eu gosod a'u cynnal a'u cadw ac osgoi unrhyw niwed a allai ddigwydd i'r cyfarpar. Lle bo modd, dylai pob cyfarpar cyfleustod fod mewn dwythellau ac wedi eu gosod "mewn coridorau". Lle bynnag y mae'n rhaid gosod gwasanaethau tanddaearol mewn mannau lle mae gwreiddiau coed wedi eu diogelu, dylid gwneud y gwaith gosod a chynnal a chadw yn unol ag arfer gorau'r diwydiant, Cyd-grŵp Cenedlaethol Cyfleustodau (CGCC) Cyfrol 4 (Gweler Atodiad 3). Dylid ystyried gwthdyllu neu ddefnyddio rhawiau aer i osod gwasanaethau tanddaearol, oherwydd y bydd y gallai'r dulliau hyn fod yn llai niweidiol i wreiddiau.

3.3 Diogelu Coed

A) Bydd y math o ddiogelu, a faint ohono sydd ei angen ar gyfer coed a gedwir ac ar gyfer mannau sydd i'w plannu, yn dibynnu ar faint a math y datblygiad. Yn amlach na heb, dylid diogelu coed a gedwir gyda weldrwyll cleddog cadarn e.e. Herras neu ffensys byrddau clos. Ceir rhagor o fanylion yn BS5837.

B) Dylai'r Ardal Gwahardd Adeiladu ar gyfer coed hynafol, hen ac/neu o fri hanesyddol (Coed Categori A3 BS 5837) fod yn seiliedig ar ardal gyda radiws sy'n bymtheg gwaith diamedr bonyn y goeden (wedi ei fesur 1.5 metr i fyny o wyneb y ddaear) neu bellter o 2 fetr y tu hwnt i estyniad y goron, pa un bynnag yw'r mwyaf.

3.4 Plannu

A) Bydd angen plannu coed a gwrychoedd newydd yn briodol, ymysg cynigion tirlunio eraill, ar safleoedd datblygu er mwyn cyfoethogi amwynder a lliniaru unrhyw golli estyniad cangau o ganlyniad i dorri coed i lawr. Dylai datblygu ddarparu ar gyfer plannu coed ar hyd prif ffryntiadau a mynediadau. Ar gyfer datblygiad preswyl o ddeg eiddo neu ragor, fel arfer bydd angen plannu coed yn rhesi o boptu i brif strydoedd ar y safle a bydd angen plannu coed stryd unigol ar ffyrdd mewnol eraill. Lle bynnag nad oes modd lliniaru'r golled o goed yn ddigonol trwy blannu o'r newydd o fewn y cynllun, bydd y Cyngor yn disgwyl i ddatblygwyr ddarparu ar gyfer digon o blannu o'r newydd oddi ar y safle, trwy ddefnyddio cytundebau Adran 106.

B) Wrth ddewis y coed sydd i'w plannu dylid ystyried trefn a chynllun y safle, ei bwrpas yn y dyfodol, cyflwr y pridd a'r hinsawdd, cymeriad lleol o ran tirwedd a chyd-destun ac mae'n rhaid cynllunio ar gyfer digon o le yn y drefn i goed fedru tyfu i'w maint llawn.

C) Dylai coed sydd i'w plannu fod o rywogaeth a fydd ar eu llawn dwf wedi cyrraedd maint a ffurf sy'n gydnaws â graddfa a strwythur y datblygiad.

Ch) Lle bynnag y bwriedir plannu coed mewn mannau gydag wyneb caled (e.e. meysydd parcio a llwybrau) dylai maint y pyllau plannu fod yn ddigon ar gyfer digon o bridd i gynnal maint y goeden/coed sydd i'w plannu yn y pen draw. Ceir rhagor o gyngor ynglŷn â meintiau gwreiddio coed o dan y teitlau wedi eu nodi gyda yn ✻ Atodiad 3.)

4. Prosesau a Gwybodaeth

4.1 Cyfnod yr Arolwg

A) Ar gyfer y rhan fwyaf o fathau o gais lle mae coed yn bresennol ar neu ger y safle arfaethedig, bydd angen arolygon tir a choed (gweler 3.1.C).

B) Arolwg Tir - cofnodi lleoliad pob coeden (y mae diamedr ei bonyn yn 75 mm neu ragor), yn cynnwys eu bonion ac estyniad eu cangau ac unrhyw lwyni a gwrychoedd o bwys ar y safle a choed ar dir cyfagos sy'n ddigon agos i effeithio'r safle datblygu (gweler BS 5837 adran 4.1). Lle bynnag nad yw'r datblygu yn cyffwrdd ag ardaloedd coediog, mae angen cofnodi coed ar yr ymylon yn unig. Mae coed digon agos i effeithio yn cynnwys y rhai sydd 12 gwaith cyn belled i ffwrdd â diamedr eu bonion (wedi ei fesur 1.5 m i fyny o wyneb y ddaear) neu oddi mewn i'r pellter hwnnw, y rhai y mae eu cangau yn ymestyn tros ffin y safle datblygu, ac/neu sy'n cysgodi'n ormodol ar eiddo preswyl a gerddi.

C) Arolwg Coed - yn nodi rhinweddau, ansawdd a gwerth pob coeden sydd ar y safle a'r rhai digon agos i effeithio, e.e. cyfeirnod, rhywogaeth, uchder, diamedr y bonyn, cyflwr, amcangyfrif o hyd oes y goeden ac ati (gweler BS 5837 adran 4.4.2.5 ac Tabl 1), y rhai y bwredir eu tynnu a'u cadw ac yn cynnwys rhaglen y gwaith a argymhellir. Dylid gwneud yr arolwg coed yn annibynnol o, ac o ddewis, cyn llunio'r cynigion dyluniad.

Ch) Efallai hefyd y bydd angen cynnal rhagor o arolygon lle gallai nodweddion ar neu ar ymyl y safle fod yn ffafriol i rywogaethau a ddiogelir. Gall coed gynnwys safleoedd nythu a magu ystlumod, rhywogaeth warchodedig Ewropeaidd, ac adar, a gall gwrychoedd hefyd a rhesi o goed fod yn rhodfa bywyd gwyllt o bwys. Cysylltwch ag Ecolegydd y Cyngor neu Gyngor Cefn Gwlad Cymru am gyngor ynglŷn â hyn.

E) Diogelir gwrychoedd brodorol gan Reoliadau Gwrychoedd 1997 a dylid eu hasesu i benderfynu a ydynt yn 'bwysig' o fewn ystyr Rheoliadau. Ceir rhagor o ganllawiau ar gyfer hyn yn y llyfryn canllawiau a gyhoeddwyd gan DETR "Rheoliadau Gwrychoedd 1997: Arweiniad i'r gyfraith ac arfer da".

4.2 Y Cyfnod Dylunio

A) Wrth ddylunio'r datblygiad dylid ystyried y cyfyngiadau a'r cyfleoedd y mae coed, coetir a gwrychoedd presennol o ansawdd da yn eu cynnig a darparu digon o le ar gyfer plannu o'r newydd.

B) Lle bynnag y bo'n briodol (gweler 3.1.C) bydd angen yr wybodaeth ganlynol er mwyn asesu effaith y datblygiad arfaethedig ar goed a gwrychoedd:

C) Asesiad o Oblygiadau Coedyddiaethol - **(AOC)** - dynodi a gwerthuso'n gynhwysfawr effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol y datblygiad ar goed a chynghori ynglŷn â chamau lliniaru dilynol (e.e. camau peirianneg a diogelu coed arbennig a manylion ailblannu lle nad oes modd peidio â cholli coed). Dylai'r asesiad gynnwys data atodlen yr arolwg coed yn gynhwysfawr, cynllun arolwg coed, cynllun cadw/dileu coed, cynllun diogelu coed, a lle bo angen cynigion ar gyfer plannu newydd yn lle'r hen, dadansoddiad o gysgodi a Datganiadau Dull Coedyddiaethol mynegol.

D) Cynllun Diogelu Coed (CDC) - mae'n dangos camau i ddiogelu coed ac mae'n egluro:

i) Ardal Diogelu Gwreiddiau (ADG) - ardal neu ddarn o gwmpas coeden sy'n dangos maint **lleiaf** y gwreiddiau (estyniad y gwreiddiau a phridd) sydd ei angen ar y goeden i barhau ac y mae'n rhaid ei diogelu yn ystod y datblygiad. Penderfynir hyn gan ddiamedr bonyn y goeden e.e. ar gyfer coed ag un bonyn, lluosir y diamedr (1.5 metr i fyny o wyneb y ddaear) gydag 12 ar gyfer coed categori A3 diamedr yn cael ei luosi gan 15. Ar gyfer coed â nifer o fonion cyfeiriwch at B5.5837: 2012 adran 4.6.1. a & b.
Yna mae Coedyddiwr yn troi'r ffigyrau hyn yn arwynebedd (mewn m²) o amgylch pob coeden, gan roi ystyriaeth i unrhyw gyfyngiadau i dyfiant y gwreiddiau fel sylfeini, ffyrdd ac ati.

ii) Ardal Gwahardd Adeiladu (AGA) - ardal neu fan o amgylch coed a gedwir y mae'n rhaid ei diogelu yn ystod y gwaith datblygu, yn cynnwys newidiadau yn lefel y tir, dymchwel ac adeiladu. Mae hyn yn seiliedig ar Ardal Diogelu Gwreiddiau'r goeden (mewn m²) ac estyniad ei changau, gyda'r Ardal Gwahardd Adeiladu yn ymestyn hyd at ymyl estyniad cangau'r goeden neu'r Ardal Diogelu Gwreiddiau, pa un bynnag yw'r mwyaf. Ar gyfer coed sylweddol hynafol, neu o fri hanesyddol, bydd y Cyngor yn disgwyl i'r Ardal Gwahardd Adeiladu gael ei hehangu yn unol ag adran 3.3.B o'r nodyn cyfarwyddyd hwn.

E) Dylai'r Cynllun Diogelu Coed hefyd ddangos pob coeden, gwrych a llwyn mawr sylweddol sydd i'w cadw a'u tynnu ymaith, lleoliad ffensiau amddiffynnol a mesurau i ddiogelu'r tir, yn cynnwys manylebau, a mannau lle bwriedir plannu coed (gweler Atodiad 2).

4.3 Y Cyfnod Adeiladu/Ôl-ofal

Gallai caniatâd cynllunio gynnwys amodau sy'n ymwneud â:

A) Datganiad o Ddull Coedyddiaethol (DDC) - mae hwn yn rhoi manylion arferion gweithio perthnasol i unrhyw waith sy'n agos iawn at goed a gedwir a dylai gynnwys manylion gwaith llawdriniaeth coed, codi mesurau diogelu coed, gwaith mewn Ardaloedd Diogelu Gwreiddiau coed ac Ardaloedd Gwahardd Adeiladu, goruchwyliaeth goedyddiaethol, cynlluniau wrth gefn, tirlunio arfaethedig ger coed a gedwir a manylion cysylltu.

B) Gwaith Coed a Gwrych - yn unol â rhaglen waith gymeradwy arolwg coed ac wedi ei wneud yn unol â Safon Brydeinig 3998: 2010.

C) Mesurau diogelu coed a thirlunio meddal - yn unol â'r cynllun diogelu coed, dylai'r mesurau fod yn eu lle cyn dechrau pob gwaith datblygu (yn cynnwys gwaith dymchwel, tynnu pridd ac/neu ail-raddio tir). Bydd y math o ffensiau diogelu coed a ddefnyddir yn dibynnu ar raddfa a math y datblygiad. Dylid arolygu mesurau diogelu wedi iddynt gael eu rhoi yn eu lle ac wedi hynny'n rheolaidd hyd nes bydd y datblygiad wedi ei gwblhau'n foddhaol.

Ch) Cynllun tirlunio - mae'n egluro lleoliad a math y gwaith plannu a'r safonau y bydd yn eu parchu a dylai gynnwys manyleb a chynllun plannu. Dylai'r fanyleb blannu gynnwys rhywogaethau'r planhigion, math a maint y stoc, yr angen am stanciau/cynnal tanddaearol, tiwbiau dŵr/awyru, llochesi coed / gardiau cwningod, mesuriadau pyllau coed a pharatoad ac unrhyw ofynion o ran gwrteithiau/gwella'r pridd.

D) Y cyfnod cynnal a chadw lle bynnag y mae'r datblygiad yn cynnwys plannu coed, bydd angen rhaglen gynnal a chadw am gyfnod lleiaf o bum mlynedd. Mae cynnal a chadw coed wedi eu plannu, yn cynnwys dyfrio, rheoli chwyn, archwilio a chywiro rhwymynnau coed yn rheolaidd a thynnu stanciau a rhwymynnau coed wedi 2-3 blynedd er mwyn sicrhau eu bod yn ymsefydlu'n llwyddiannus.

Dd) Goruchwyliaeth goedyddiaethol - archwiliadau rheolaidd gan goedyddiwr o:

i) Fesurau diogelu coed a gwrychoedd (ffensio a diogelu tir).

ii) Gwaith mewn Ardaloedd Diogelu Gwreiddiau ac/neu Ardaloedd Gwahardd Adeiladu.

5. Diogelu Statudol

A) Gallai coed ar neu ger safleoedd datblygu fod wedi eu diogelu gan amodau cynllunio, neu oherwydd eu bod mewn Ardaloedd Cadwraeth neu oherwydd eu bod o dan Orchmynion Cadw Coed, gyda'r Cyngor yn gweinyddu'r tri. Mae gan bob coeden mewn Ardal Gadwraeth y mae diamedr ei bonyn yn 75 mm neu fwy (wedi ei fesur 1.5 metr i fyny o wyneb y ddaear) yr un lefel o ddiogelwch â Gorchymyn Cadw Coed. Trosedd, yn amodol ar rai eithriadau, yw tocio neu dorri i lawr coeden sydd wedi ei diogelu gan Orchymyn Cadw Coed neu statws Ardal Gadwraeth. Ar ben hynny, mae gan y Comisiwn Coedwigaeth ddyletswydd statudol i reoleiddio torri coed trwy ddosbarthu trwyddedau torri coed. Lle bynnag y mae coed gwrychoedd yn cynnwys rhywogaethau gwarchodedig (e.e. ystlumod, pathewod) mae angen trwydded gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru i wneud gwaith ar goed.

B) Bydd y Cyngor yn gweithredu ei bwerau gorfodi lle bynnag nad yw gwaith datblygu wedi ei wneud yn unol â chynlluniau cymeradwy neu le bynnag nad yw amodau cynllunio wedi eu parchu. Lle bynnag y bydd Gorchmynion Cadw Coed ac/neu ddeddfau ynglŷn â choed Ardaloedd Cadwraeth wedi eu torri, bydd y Cyngor fel arfer yn erlyn trwy'r gyfraith, pan yw coed gwarchodedig wedi eu niweidio neu eu dinistrio.

Atodiad 1: Cynllunio ar gyfer Coed ar Safleoedd Datblygu - Diagram Llif



Atodiad 2: Enghraifft o Gynllun Diogelu Coed



Cydnabyddiaeth

Darparwyd y Cynllun Diogelu Coed gan Tree Solutions Arboricultural Consultancy.

Atodiad 3: Gwybodaeth Ychwanegol

Mae'r Safonau Prydeinig canlynol, nodiadau cyfarwyddyd a llyfrau, yn cynnig canllawiau pellach ynglŷn â datblygu a choed. Yn ychwanegol, mae'r Cyngor wedi llunio cyfres o daflenni gwybodaeth ynglŷn â materion penodol sy'n ymwneud â choed a datblygu, sydd ar gael gan yr Adran Gynllunio ac ar wefan y Cyngor.
www.wrexham.gov.uk/planning

- Safon Brydeinig 5837: (2012): "Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu" - Argymhellion
- Safon Brydeinig 1192: Rhan 4: (1984): Construction Drawing Practice - Recommendations for Landscape Drawings.
- Safon Brydeinig 3882 (2007): Specification for Topsoil and requirements for use.
- Safon Brydeinig 3936: (1992): Specificationfor Nursery Stock.
- Safon Brydeinig 3998: (2010): Tree Work.Recommendations
- Safon Brydeinig 4043: (1989): Transplanting Root-Balled Trees.
- Safon Brydeinig 4428: (1989): Code of Practice for General Landscape Operations. Safonau Prydeinig ar gael gan www.bsi-global.com.
- Y Sefydliad Ymchwil Adeiladu (BRE) - Low-Rise Building Foundations: The Influence of Trees on Clay Soils (1999). Ar gael gan www.brebookshop.com
- Canllawiau Coed Hynafol Rhif. 3: Trees and Development. Available from www.woodlandtrust.org.uk
- Adran yr Amgylchedd a Thrafnidiaeth (DETR) - Hedgerow Regulations 1997: A Guide to the Law and Good Practice. Ar gael gan www.hedgelink.org.uk
- Yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol (ACLlL) - Tree Roots in the Built Environment (2006).Ar gael gan y rhan fwyaf o siopau llyfrau.
- Cyd-grŵp Cenedlaethol Cyfleustodau (CGCC) Cyfrol 4 - Guidelines for the Planning, Installation and Maintenance of Utility Apparatus in Proximity to Trees (2007). Ar gael gan www.njug.org.uk
- Safonau Cyngor Cenedlaethol Adeiladu Tai (CCAT)s - Building Near Trees: Chapter 4.2 (Amended 2003). Ar gael gan www.nhbc.co.uk or neu drwy ffonio 0844 633 1000.

* Trees in the Urban Landscape - Site Assessment, Design and Installation (Wiley) (2004). Ar gael gan y rhan fwyaf o siopau llyfrau.
* Up by Roots - Healthy Soils and Trees in the Built Environment (ISA) (2008). Ar gael gan www.isa-arboriculture.org

Atodiad 4: Cysylltiadau Defnyddiol

- **Pennaeth Lles Cymunedol a Datblygu**
  Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
  16 Stryt yr Arglwydd, Wrecsam, LL11 1LG.
  Ffôn: 01978 292016
  E-bost:planning@wrexham.gov.uk
  Gwefan: www.wrexham.gov.uk/planning

  Cyngor ynglŷn â choed ar safleoedd datblygu, coed Ardaloedd Cadwraeth a Gorchmynion Cadw Coed

- **Y Gymdeithas Goedyddiaeth (AA)**
  The Malthouse, Stroud Green, Standish, Stonehouse, Gloucestershire, G40 3DL.
  Ffôn: 0 1242 522152
  E-bost: admin@trees.org.uk
  Gwefan: www.trees.org.uk

  Cyngor ynglŷn â choed ac maent yn cynhyrchu cyfeirlyfr blynyddol o Dyfwyr Coed sydd wedi eu cofrestru gyda'r AA(Ymgynghorwyr Coed) a chontractwyr (Meddygon Coed).

- **Gwasanaeth Cyngor a Gwybodaeth Coedyddiaeth**
  Alice Holt Lodge, Wrecclesham, Farnham, Surrey, GU10 4LH.
  Ffôn: 09065 161147 (pris uchaf) neu'r weinyddiaeth 01420 22022
  E-bost: admin@treehelp.info
  Gwefan: www.treehelp.info

  Cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â gofalu am goed a materion sy'n ymwneud â choed ar safleoedd datblygu.

- **Cyngor Cefn Gwlad Cymru**
  Ffôn: 0845 1306 229
  Gwefan: www.ccw.gov.uk

  Cyngor a chyfarwyddyd ynglŷn â gofalu am goed a materion sy'n ymwneud â choed ar safleoedd datblygu.

- **Cymdeithas y Coedyddwyr Ymgynghorol -**
  E-bost:chairman@consultingarboristsociety.co.uk
  Gwefan: www.consultingarboristsociety.co.uk

  Maent yn darparu rhestr o'r Tyfwyr Coed sydd wedi eu cymeradwyo gan CAS (Ymgynghorwyr Coed).

- **Sefydliad y Safonau Prydeinig**
  Gwasanaethau Cwsmer, 389
  Chiswick High, Road, London, W4 4AL
  Ffôn:020 8996 9001
  E-bost:cservices@bsigroup.com
  Gwefan: www.bsi-global.com

  Darpariaeth Safonau Prydeinig.

- **Comisiwn Coedwigaeth Cymru**
  Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3UR
  Ffôn: 0300 068 0300
  E-bost: fcwenquiries@forestry.gsi.gov.uk
  Gwefan: www.forestry.gov.uk/wales

  Cyngor ynglŷn â rheolaethau trwyddedau torri coed.

- **Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig**
  59 George Street, Caeredin, EH2 2JG.
  Ffôn: 0131 2401425
  Gwefan: www.charteredforesters.org

  Maent yn darparu rhestr o Dyfwyr Coed siartredig (Ymgynghorwyr Coed) a choedwigwyr.

- **Y Gymdeithas Goedyddiaeth Ryngwladol - (Siapter y DU ac Iwerddon)**
  148 Hydes Road, Wednesbury,
  West Midlands, WS10 0DR, Y Deyrnas Unedig.
  Ffôn: 0121 556 8302
  E-bost: enquries@isa-arboriculture.org.uk
  Gwefan: www.isa-arboriculture.org.

  Mae'n darparu cyfarwyddyd a llyfrau ynglyn â choed a datblygu ac mae'n cynhyrchu rhestr o Dyfwyr Coed siartredig y Gymdeithas Goedyddiaeth Ryngwladol(Meddygon Coed).

- **Y Cyd-grŵp Cyfleustodau Cenedlaethol (CGCC)**
  111 Buckingham Palace Road, London, SW1W 0SR.
  Ffôn: 0207 340 8737
  E-bost: info@njug.org.uk
  Gwefan: www.njug.org.uk

  Maent yn cynhyrchu canllawiau ynghylch cyfleustodau ger coed (CGCC 4).ar trees (NJUG 4).

Am ragor o wybodaeth cysyllter â:

Adran Lles Cymunedol a Datblygu
Y Gwasanaeth Cynllunio
16 Stryt yr Arglwydd,
Wrecsam LL11 1LG
Ffôn: (01978) 292016
E-bost:planning@wrexham.gov.uk
Gwefan:www.wrecsam.gov.uk

Mabwysiadwyd ym mis Medi 2000
Diweddarwyd ym mis Ebrill 2006
Diweddarwyd ym mis Ionawr 2011
Diweddarwyd ym mis Rhagfyr 2012

wrexham COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL wrecsam